



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: 55678090

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoli maethynnau – Rheoli taenu tail da byw yn gynaliadwy

Cynigion ar gyfer cynllun trwyddedu hyd at 2025.

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Chwefror 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r pecyn o fesurau y mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi cytuno arno i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio ar lygredd amaethyddol. Mae'n ceisio barn ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu mewn cysylltiad â'r mesur rheoli maethynnau a nodir yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae'r mesur yn gosod terfyn – a fesurir fel 170kg o nitrogen yr hectar – ar y maethynnau o dail da byw y gellir eu taenu ar draws daliad, fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau, yn flynyddol.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau arfaethedig ar gyfer rhoi trwydded o dan amgylchiadau penodol a fyddai'n caniatáu rhagori ar y terfyn uchod, hyd at uchafswm o 250kg o nitrogen yr hectar, yn amodol ar ofynion cnydau ac amodau a ddyluniwyd i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'r cynigion yn cynnwys proses ymgeisio ac amodau trwydded. Byddai pob mesur arall sydd wedi'u cynnwys o fewn y Rheoliadau yn parhau mewn grym, neu fel arall yn ddarostyngedig i'r cyfnod pontio perthnasol.

Sut i ymateb

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 17 Chwefror 2023, gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Ilenwi ein ffurflen ar-lein

lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn NMLS.Ymgynghoriad@llyw.cymru

lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i phostio i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Amaeth – Datblygu Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Amaeth – Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: NMLS.Ymholiadau@llyw.cymru

This document is also available in English: <https://gov.wales/nutrient-management-managing-application-livestock-manures-sustainably>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cynnwys.....	6
Pennod 1: Cefndir	7
Pennod 2: Cynllun trwydded arfaethedig.....	9
Pennod 3: Gofynion gwneud cais am drwydded	10
Pennod 4: Amodau'r drwydded	12
Pennod 5: Gorfodi ac apeliadau.....	18
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	20

Pennod 1: Cefndir

Gwella ein hafonydd a'n dyfrffyrdd

Mae achosion ansawdd dŵr gwael yng Nghymru yn amrywio, gyda chyfraniadau'n deillio o amryw o sectorau, gan gynnwys trafndiaeth, llygredd trefol, amaethyddiaeth, mwyngloddio a chwarela (gan gynnwys llygredd o fwyngloddiau metel segur) a gollyngiadau'r diwydiant dŵr. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol a dinistriol ar fywyd gwyllt a chynefinoedd ac yn cyfyngu ar ein gallu i adeiladu'r cartrefi carbon isel a'r seilwaith ategol sydd eu hangen ar ein cymunedau. Rhaid i ni ddatblygu a gweithredu dull 'Tîm Cymru' traws-sectoraidd integredig i wella ansawdd dŵr yn y tymor hir a chynnal amgylchedd iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021¹ (y Rheoliadau) yn helpu i fynd i'r afael ag achosion llygredd o weithgarwch amaethyddol. Mae'r mesurau'n seiliedig ar yr arferion da y mae llawer o'n ffermwyr a'n rheolwyr tir wedi bod yn eu rhoi ar waith ers blynyddoedd. Eu nod yw atal llygredd rhag digwydd ac maent yn cynnwys camau ynghylch cynllunio, rheoli a maethynnau a'u rhoi ar y tir, ymhlith pethau eraill. Maent yn helpu i gyflawni ystod eang o'n rhwymedigaethau rhyngwladol² a domestig³ ac yn helpu i gyflawni amcanion allweddol ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, amonia a deunydd gronynnol a chyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae ffocws yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau posibl i'r elfen o'r Rheoliadau sy'n gosod terfyn o 170kg o nitrogen yr hectar y flwyddyn o dail da byw ar gyfer daliad, fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau. Mae'r terfyn yn seiliedig ar y nitrogen o nifer y da byw a gedwir ar y daliad dros y flwyddyn a'r tir cymwys a ddiffinnir yn y Rheoliadau. Mae hefyd yn ystyried mewnfôrion ac allforion tail. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynllun trwyddedu i weithredu tan 2025, a fyddai'n caniatáu taenu mwy o nitrogen o dan rai amgylchiadau cyfyngedig ac yn ddarostyngedig i rai amodau. Rydym yn croesawu barn ar y cynnig am gynllun o'r fath a'r ffordd y caiff ei weithredu.

Pam mae rheoli maethynnau yn bwysig?

Mae Cymru'n ffodus bod ganddi hinsawdd dymherus, digon o law a glaswelltir o ansawdd da, sy'n cyfrannu at y cynnyrch o ansawdd uchel mae ein ffermwyr a'n rheolwyr tir yn enwog amdano.

¹ [Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021 \(legislation.gov.uk\)](#)

² Mae hyn yn cynnwys [Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd; Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol; Nodau Datblygu Cynaliadwy](#) y Cenhedloedd Unedig a [Phrotocol Gothenburg](#)

³ Mae'r Rheoliadau'n cyfrannu at ein rhwymedigaethau o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a nodau [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

Mae angen nitrogen a ffosfforws ar bob planhigyn i dyfu a datblygu ac mae tail da byw yn llawn o'r maethynnau hyn. Fodd bynnag, gall ychwanegu mwy o'r maethynnau hyn a maethynnau eraill nag sydd ei angen ar gnydau, ynghyd â'n glawiad uchel, arwain at ddŵr ffo neu faethynnau hydawdd yn cael eu cario drwy'r pridd i ddŵr daear a dŵr wyneb, gan gyrraedd ein dyfrffyrdd yn y pen draw. Mae hyn yn achosi gormodedd o faethynnau a elwir yn ewtroffigedd. Gall hyn gyflymu twf planhigion ac algâu yn yr amgylchedd dyfrol, gan leihau argaeledd ocsigen ac achosi niwed difrifol i'n hamgylchedd.

Mae taenu mwy o dail da byw neu slyri nag sydd ei angen ar gnydau yn cael ei ystyried yn weithgarwch gwaredu gwastraff y mae angen trwydded ar ei gyfer. Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor ar sut i ddefnyddio tail a slyri yn briodol⁴, gan amlinellu pryd mae tail a slyri'n cael eu hystyried yn ddeunydd gwastraff. Mae'n dweud 'Pan ddefnyddir tail neu slyri ar dir heb unrhyw fudd amlwg i'r pridd neu dwf y cnwd neu pan fyddant yn rhoi mwy o faetholion nag sydd eu hangen ar y cnwd, fe'u hystyrir yn ddeunyddiau gwastraff' ac yn cadarnhau pwysigrwydd anghenion cnydau fel y llinell ddiffiniol rhwng defnydd buddiol a gweithgarwch gwaredu gwastraff.

Rheoli taenu maethynnau

Mae'r Rheoliadau'n gosod terfyn daliad blynyddol ar ychwanegu nitrogen o dail da byw, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy wasgaru tail neu slyri da byw. Nod y terfyn hwn yw atal ewtroffigedd o fewn yr amgylchedd dyfrol o ganlyniad i ormodedd o nitrogen a ffosfforws. Mae'r terfyn wedi'i osod yn y Rheoliadau ar 170kg o nitrogen yr hectar y flwyddyn. Mae hyn yn gyson â therfynau sydd ar waith mewn mannau eraill i gynnal cywerthedd â gofynion cyfraith yr UE. Mae'r gofyniad hwn wedi bod yn nodwedd allweddol o Gyfarwyddeb Nitradau'r UE ers ei sefydlu ym 1991.

Er bod y terfyn yn cael ei ddisgrifio drwy gyfeirio at ychwanegu nitrogen, mae hefyd yn rheoli yn erbyn ychwanegu gormod o ffosfforws oherwydd y cymarebau y mae'r ddau faethyn yn bresennol mewn tail da byw. Rydym yn edrych ar y mater hwn yn fanylach ym Mhennod 4.

Y sefyllfa bresennol ar draws y DU

Nid yw Cymru ar ei phen ei hun o ran cyfyngu ar ychwanegu maethynnau at y tir er mwyn lliniaru risgiau llygredd i ddyfrffyrdd. Mae gan Loegr a'r Alban ardaloedd lle mae terfynau tebyg ar waith.

Yn Lloegr, rhaid i bob fferm gadw at y Rheolau Ffermio ar gyfer Dŵr sy'n cynnwys cynlluniau rheoli maethynnau ar gyfer pob maethyn, cynnal profion i ganfod lefelau pH, Ffosfforws, Potasiwm (K) a Magnesiwm y pridd, rheolau ar gywasgu a sathru

⁴ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Sut i ddefnyddio tail a slyri yn briodol](#)

pridd a llwybrau llygredd eraill⁵. Yn yr Alban, rhaid i bob fferm gadw at y Rheolau Rhwymo Cyffredinol⁶ sy'n cynnwys cynlluniau rheoli maethynnau gorfodol ar gyfer ffosfforws a pH, cyfyngiadau ychwanegol ar ychwanegu maethynnau at briddoedd bas, rheolau ar erydu pridd, rheolau ychwanegol ar lwybrau llygredd, sathru a gwasgaru allyriadau isel a gofynion storio uwch. Mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu Rhaglen Gweithredu Maethynnau⁷ ar draws ei thiriogaeth gyfan.

Yn hanesyddol, roedd y Gyfarwydddeb Nitradau yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wneud cais am rannirymidiadau o'r terfyn blynyddol o 170kg yr hectar, yn amodol ar feini prawf ac amodau ychwanegol, i derfyn uchaf o 250kg yr hectar. Roedd y rhanddirymidiadau hyn yn berthnasol am gyfnod penodol ac yn amodol ar gael eu hadnewyddu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Gogledd Iwerddon yw'r unig ran o'r DU ar hyn o bryd sydd â phenderfyniad rhanddirymiad⁸ ar waith, a bydd y penderfyniad hwn yn dod i ben ddiwedd 2022. Daeth penderfyniad rhanddirymiad ar gyfer daliadau yng Nghymru mewn ardaloedd a ddynodwyd yn flaenorol fel Parthau Perygl Nitradau (NVZs) i ben yn 2016.

Pennod 2: Cynllun trwydded arfaethedig

Y bwriad yw i'r cynllun trwydded arfaethedig fod yn weithredol tan 2025. Mae'r cynnig yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector amaethyddol yn dilyn cyflwyno'r Rheoliadau, costau mewnbwn uwch yn ymwneud â phrisiau gwrtaita a bwyd anifeiliaid, costau ynni a thanwydd ac ansicrwydd economaidd ehangach.

Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn wedi ystyried yr angen i gynnal cywerthedd â mesurau sy'n gweithredu mewn mannau eraill yn y DU a thu hwnt, ochr yn ochr â'n rhwymedigaethau amgylcheddol a chyfreithiol ehangach. Rydym wedi ystyried y trefniadau sy'n berthnasol ledled y DU, gan gynnwys y rhanddirymiad y cytunwyd arno yng Ngogledd Iwerddon, a'u potensial i gael eu mabwysiadu i'w defnyddio yng nghyd-destun Cymru, gan ystyried y ddaearyddiaeth, yr hinsawdd a'r dirwedd amaethyddol ledled Cymru, ymysg pethau eraill.

Glaswelltir yw tirwedd amaethyddol Cymru yn bennaf - mae 87% o'r tir amaethyddol yng Nghymru yn fath o laswelltir neu dir pori, gyda 63% yn laswelltir parhaol⁹. Mae glaswellt yn gnwd sy'n defnyddio llawer o nitrogen ac, o'i reoli'n briodol, gall gynorthwyo gyda dadnitreiddio priddoedd. Mae glaswellt yn cael ei reoli'n gyffredinol fel cnwd gorchudd parhaol, sy'n helpu i gyfyngu ar golled pridd a cholled maethynnau o ddŵr ffo.

⁵ [Farming rules for water from April 2018 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁶ [Reduce Diffuse Pollution Risks in Farming. Know the regulations. \(farmingandwaterscotland.org\)](http://farmingandwaterscotland.org)

⁷ [Nitrates Directive | Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs \(daera-ni.gov.uk\)](http://daera-ni.gov.uk)

⁸ [Penderfyniad y CE 2019/1325/EU](http://ce2019/1325/eu)

⁹ [Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

Mae amodau hinsoddol Cymru yn cynnwys glawiad uwch, ac mae'r tymheredd cyfartalog rhwng 9.5 ac 11 gradd ar dir is, lle mae'r mwyafrif o laswelltir parhaol wedi'i wella wedi'i leoli, hefyd yn darparu amodau da ar gyfer twf glaswellt, drwy dymor tyfu hir. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes wedi dyroddi penderfyniadau rhanddirymiad i'r Gyfarwyddeb Nitradau i wledydd sydd ag amodau hinsoddol ac amaethyddol tebyg.¹⁰

Fodd bynnag, mae'r glawiad uchel yng Nghymru hefyd yn cynyddu'r risgiau o golledion pridd a maethynnau drwy ddŵr ffo, yn enwedig drwy gyfnod yr hydref a'r gaeaf. Mae cyfraddau taenu tail uchel yn cynyddu'r risg o golli maethynnau i'r amgylchedd. Bydd unrhyw gyfraddau taenu tail da byw sy'n uwch na'r terfyn fesul daliad a nodir yn y Rheoliadau yn gofyn am fesurau ychwanegol i ddiogelu'r amgylchedd. Archwilir y nodweddion hyn yn fanwl yn y penodau canlynol.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu, i fod yn weithredol tan 2025, er mwyn caniatáu taenu lefelau uwch o nitrogen o dan rai amgylchiadau penodedig? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Pennod 3: Gofynion gwneud cais am drwydded

Mae'n bosibl bod llawer o fusnesau fferm yn bodloni gofynion y Rheoliadau yn barod, naill ai oherwydd y camau y maent eisoes wedi'u cymryd neu oherwydd strwythur y busnes fferm. Bydd y cynllun trwyddedu'n gweithredu drwy geisiadau'n unig sy'n golygu y gall ffermydd, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cyfradd uwch o nitrogen o dail da byw ar hyn o bryd, gael trwydded i daenu cyfradd uwch o dan rai amgylchiadau penodedig a reolir.

Cymhwysedd

Bydd angen i geisiadau ddangos gofyniad o ran cynydu am daenu cyfradd uwch o dail da byw. Mae'n debygol y bydd angen i gyfran sylweddol o'r daliad fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau fod yn laswelltir o ystyried ei ddefnydd uchel o nitrogen fel cnwd, ei dymor tyfu hir a'i allu i weithredu fel cnwd gorchudd parhaol, gan helpu i gyfyngu ar golli pridd a maethynnau o ddŵr ffo.

Cynigir y byddai angen i ymgeiswyr llwyddiannus allu dangos bod o leiaf 80% o'r daliad yn laswelltir a dangos y lefelau angenrheidiol o anghenion cynydu ar gyfer y maethynnau y bwriedir eu taenu.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysra arfaethedig? Os na, pam hynny a pha feini prawf fydddech chi'n eu cynnig?

¹⁰ [EUR-Lex - 52021DC1000 - EN - EUR-Lex \(europa.eu\)](#)

Arddangos gofyniad cnydau

Rydym yn cynnig y dylai ffermydd sydd am gael trwydded i ddefnyddio mwy na'r terfyn blyneddol o 170kg yr hectar ar eu daliad gyflwyno cyfrifiad o ofyniad nitrogen a ffosfforws cnydau fel rhan o'r broses o wneud cais.

Bydd angen i'r cyfrifiad ddangos yn glir alw'r cnydau am nitrogen a ffosfforws i gefnogi taenu mwy na 170kg yr hectar y flwyddyn o nitrogen o dail da byw.

Os yw'r busnes fferm wedi cynnal dadansoddiad pridd o fewn y 4 blynedd diwethaf, rhaid i'r cyfrifiad hwn ymgorffori amodau presennol y pridd, gan gynnwys lefelau nitrogen, ffosfforws, potasiwm a pH.

Mae'r opsiynau ar gyfer cyfrifo a rheoli maethynnau wedi'u nodi ym mhennod 4.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai fod angen dangos anghenion cnydau yn glir fel y disgrifir uchod?

Cynlluniau rheoli maethynnau

Cynigir y dylai gofyniad cnydau gael ei ddangos yn glir o fewn cynllun rheoli maethynnau manwl. Yn ogystal â'r cyfrifiadau gofyniad cnydau a gynigir uchod, bydd yn ofynnol i'r cynllun hwn gynnwys y canlynol hefyd:

- manylion unrhyw waith samplu pridd a gynhaliwyd o fewn y 4 blynedd diwethaf, gan gynnwys rhifau caeau;
- unrhyw gynlluniau ar gyfer mewnfurio neu allforio tail da byw, gan gynnwys y math o dail a'r ardaloedd y bwriedir ei daenu;
- amlinelliad o'r caeau lle bwriedir defnyddio tail organig ar y map risg gan ddefnyddio rhifau caeau o fewn y cynllun rheoli maethynnau;
- gwybodaeth am unrhyw fwriad i daenu unrhyw wrteithiau a weithgynhyrchwyd neu dail organig ychwanegol fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau e.e. biosolidau;
- cyfraddau taenu bwriadedig unrhyw gyflyrydd pridd neu galch a allai effeithio ar gyflwr presennol y pridd

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig y cynllun rheoli maethynnau?

Ystyriaethau cyfreithiol ac ystyriaethau eraill

Nod sylfaenol y Rheoliadau yw diogelu ein hamgylchedd dyfrol rhag llygredd o weithgareddau amaethyddol.

Bydd y cynlluniau a gyflwynir yn ystyried risgiau i'r amgylchedd ehangach ac yn cael eu hasesu yn erbyn y risgiau hynny, gyda ffocws penodol ar yr effeithiau, gan

gynnwys effeithiau cronrus, ar ddalgylchoedd afon a safleoedd dynodedig sy'n methu, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ond heb eu cyfyngu i'r rhain.

Cwestiwn 5: Sut y gall risgiau i'r amgylchedd ehangach gael eu hystyried orau a sut y gall cynlluniau rheoli maethynnau gael eu hasesu mewn ffordd safonol?

Ffenestr ymgeisio

Y bwriad yw i'r cyfnod ymgeisio fod ar agor am uchafswm o 3 mis i ganiatáu i ffermydd sy'n cymryd rhan ymgymryd â'r broses cynlluniau rheoli maethynnau angenrheidiol a deall goblygiadau'r gofynion trwydded ar eu busnesau fferm unigol.

Er y gall fferm ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â pharatoi a chynllunio gyda'r bwriad o wneud cais a chael trwydded yn ystod y cyfnod 3 mis hwn, caiff pob cais ei asesu'n unigol ac efallai na fyddant yn llwyddiannus. Dylai busnesau fferm fod yn barod i ddiwygio'r gweithgarwch sydd ganddynt mewn golwg os na fyddant yn llwyddiannus.

Hyd y drwydded

Rydym yn ymgynghori ar gynigion i gynllun trwyddedu fod yn weithredol tan 2025. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar hyd ac amseru priodol trwyddedau a roddir o dan y cynllun hwn.

Pennod 4: Amodau'r drwydded

Rheoli ffosforws

Amlinellodd Pennod 1 effeithiau llygredd nitrogen a ffosforws ar yr amgylchedd. Mae'r terfyn daliad a nodir yn y Rheoliadau, er ei fod wedi'i fesur yn nhermau kg o nitrogen yr hectar, yn ystyried hefyd y gymhareb lle mae ffosforws hefyd yn bresennol mewn tail da byw ac yn amddiffyn rhag ychwanegu mwy o ffosforws nag sydd ei angen ar y cnwd. Mae'r bennod hon yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ystyried y risgiau a achosir gan lygredd ffosforws o ganlyniad i daenu mwy o dail da byw.

Bydd angen dull rheoli ffosforws. Bydd angen cyfrifo i ddangos gofyniad cnydau am ychwanegu ffosforws a sut y bydd y ffosforws yn cael ei ddefnyddio.

Gofyniad cnydau am ffosforws

Byddai dull gofyniad cnydau am ffosforws yn gofyn i ffermydd beidio â defnyddio mwy o ffosforws nag y mae'r cnwd yn gallu ei ddefnyddio o fewn cylch cnydau a gynlluniwyd. Byddai'r dull hwn yn lleihau effeithiau posibl defnyddio gormod o ffosforws yn ddamweiniol drwy ystyried y gyfradd ffosforws o fewn tail da byw.

Gellid cyfrifo hyn drwy asesu gofyniad cnydau am ffosfforws a'r cyfraddau ychwanegu bwriadedig ar gyfer y ffosfforws. Pe bai cyfraddau ychwanegu uwch na phwynt gofyniad, byddai gofyn i briddoedd fod mewn cyflwr o ddiffyg ffosfforws neu fod angen penodol arall er mwyn caniatáu'r cyfraddau ychwanegu.

O dan y rhanddirymiad blaenorol a roddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (NVZs) yng Nghymru cyn i'r DU ymadael â'r UE, roedd gofyniad i asesu cyfraddau ychwanegu ffosfforws fel rhan o gynlluniau rheoli maethynnau. Mae'r gwerthoedd ar gyfer cynnwys ffosfforws tail i'w cael o fewn Atodlen 1 i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Dyma hefyd y model sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr a'r Alban ar gyfer cyfrifo'r taenu arfaethedig o dail ar gyfer cais i'r cynllun rhanddirymiad NVZ.

Ni ddylai cyfraddau ychwanegu maethynnau arfaethedig fod yn uwch na gofyniad cnydau yn seiliedig ar y cyflenwad presennol o ffosfforws yn y pridd. Mae'r llawlyfr gwrtaithe RB209¹¹ yn amlinellu gofynion cnydau am ffosfforws. Mae gofynion cnydau am ffosfforws yn cael eu cyfrifo gan ystyried y cyflenwad presennol yn y pridd, a nodir fel mynegai fel arfer, a'r cyfraddau ychwanegu optimaidd a argymhellir ar gyfer y cynnyrch cnwd a ragwelir.

Cyfrifir mynegeion ar y maethynnau sydd ar gael i gnydau y mae'n rhaid eu rhyddhau o'u ffurfiau sefydlog, felly mae lefelau sydd ar gael i gnydau yn llai na'r cyfanswm sydd wedi'i gynnwys yn y pridd. Mae rheoli'r cyflenwad o faethynnau yn seiliedig ar reoli'r cyflenwad hwn ar draws anghenion sawl cylchdro, yn hytrach na gofyniad un cylch cnydau yn unig. O ganlyniad, y dull yw cynnal y pridd i'w fynegeion gorau posibl ar draws ystod o faethynnau, gan gynnwys ffosfforws.

Byddai hyn yn cynnwys gofyniad i ffermydd wybod lefelau ffosfforws presennol y pridd. Nid yw hyn yn ofyniad rheoliadol o fewn y Rheoliadau.

Canfod lefelau ffosfforws presennol mewn priddoedd - samplu a dadansoddi

Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad rheoliadol i gynnal profion pridd. Fodd bynnag, mae llawer o ffermydd yn cynnal profion pridd fel rhan o'u prosesau rheoli maethynnau a chynlluniau cyffredinol y fferm fel arfer gorau.

Mae dadansoddiad pridd yn nodwedd o rhanddirymadau o'r Gyfarwyddeb Nitradau; ar gyfer cywerthedd â'r gyfarwyddeb, byddai angen cynnal y dadansoddiad o fewn 12 mis i roi'r rhanddirymiad ar o leiaf 75% o'r daliad, gan gynrychioli prif weithgarwch y daliad a 100% o'r arwynebedd amaethyddol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl i'r cais nesaf gael ei ganiatáu.

Fel arfer, mae dadansoddiad pridd yn cael ei gynnal ar gylch 4 i 5 mlynedd ac fe'i defnyddir i gynorthwyo gyda chynllunio'r defnydd o faethynnau; gall gymryd amser i

¹¹ [Nutrient Management Guide \(RB209\) | AHDB](#)

newidiadau rheoli tir neu ychwanegu maethynnau ddangos o fewn y dadansoddiad pridd. At ddibenion rhoi trwydded, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ystyried bod unrhyw ganlyniadau o brofion a gwblhawyd o fewn y 4 blynedd diwethaf adeg gwneud y cais yn ddilys.

Ar gyfer ffermydd nad ydynt yn ymgymryd â dadansoddiad pridd ar hyn o bryd fel rhan o'u prosesau rheoli maethynnau, ac i sicrhau bod y gwerthoedd sy'n cael eu defnyddio i gynllunio'r defnydd o faethynnau yn gywir, cynigir y dylai ffermydd gynnal profion pridd ar o leiaf 75% o'r daliad, bob 5 hectar o leiaf, cyn 31 Rhagfyr 2023, i lywio cynlluniau ar gyfer blwyddyn galendr 2024.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol gofyn am brofi a dadansoddi pridd i lywio cynlluniau rheoli maethynnau?

Dull cydbwysedd ffosfforws fferm gyfan

Mae'r 'dull cydbwysedd ffosfforws fferm gyfan' yn ddull mwy cyfannol o ddeall y cylch ffosfforws ar fferm. Mae'n ystyried effeithiau allanol y tu hwnt i'r cae unigol a thaenu tail neu wrteithiau. Er enghraifft, byddai'n ystyried mewnbynnau ffosfforws i'r fferm, yng nghynnwys bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'w fwyta gan y da byw, ac allbynnau ar ffurf cynnyrch megis llaeth neu wyau.

Defnyddir y dull fferm gyfan hwn yng Ngogledd Iwerddon lle mae gwerthoedd sefydledig ar gyfer cyfrifo'r cydbwysedd ffosfforws. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw werthoedd addas wedi'u cynnwys o fewn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Byddai angen cynnal asesiad pellach i bennu gwerthoedd priodol.

Cwestiwn 7: A ddylid ystyried 'dull cydbwysedd ffosfforws fferm gyfan'? Dylech gynnwys rhesymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

Ffrwythlondeb pridd a pH

Mae gallu cyffredinol y pridd i gefnogi twf cnydau yn cael ei alw'n ffrwythlondeb pridd. Wrth ymgymryd â chynlluniau rheoli maethynnau, dylid ystyried ffactorau ffrwythlondeb pridd perthnasol eraill, gan gynnwys pH pridd, maethynnau eraill megis Potash (Potasiwm), Magnesiwm a Sylffwr, deunydd organig y pridd a strwythur y pridd. Mae'r cynigion amlinellol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy¹² yn cynnig gwell cynlluniau rheoli maethynnau sy'n cwmpasu ystod ehangach o faethynnau ac amodau pridd.

Mae'r pH pridd yn un o benderfynyddion pwysig gallu cnwd i amsugno maethynnau fel rhan o'r cylch tyfu. Mae llawlyfr gwrtaith RB209¹³ yn tynnu sylw at y ffaith y gall y defnydd gormodol o rai gwrteithiau nitrogen ac arferion eraill arwain at fwy o

¹² [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: cynigion bras ar gyfer 2025 | LLYW.CYMRU](#)

¹³ [Nutrient Management Guide \(RB209\) | AHDB](#)

asideiddio priddoedd, gan arwain at effaith niweidiol ar allu'r cnwd i dderbyn maethynnau, gan gynnwys ffosfforws.

Gall priddoedd sy'n rheolaidd y tu allan i'r ystod gorau posibl o pH ar gyfer y math o gnwd a phridd gynyddu'r risg o lygredd o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r pridd yn gallu defnyddio'r maethynnau a daenir ar y tir.

Mae cynnal lefelau priodol o faethynnau eraill o fewn y pridd yn bwysig ar gyfer iechyd planhigion a'r gallu i ddefnyddio'r nitrogen a'r ffosfforws sydd wedi'u cynnwys mewn tail da byw.

Cwestiwn 8: A ddylai cynlluniau rheoli maethynnau ofyn am ffactorau maethynnau ac amodau pridd eraill ar wahân i nitrogen a ffosfforws? Os felly, pa rai?

Da byw nad ydynt yn pori

Mae'r terfyn o 170kg yr hectar yn berthnasol i bob math o dail da byw; rhaid i dail o dda byw nad ydynt yn pori gael ei daenu ar dir drwy wasgaru gan nad ydynt yn gallu pori pob rhan o'r daliad.

Un o nodweddion rhanddirymiadau presennol o'r Gyfarwyddeb Nitradau yw gwahardd tail o dda byw nad ydynt yn pori o'r terfyn nitrogen uwch. Defnyddiwyd y diffiniadau hyn yn flaenorol ar gyfer rhanddirymiadau i Barthau Perygl Nitradau blaenorol Cymru ac maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y bwriad yw y bydd yr un diffiniadau yn berthnasol i'r cynllun trwyddedu.

Cynllun ar gyfer mewnforio neu allforio tail da byw

Gall rhai ffermydd ddewis allforio tail da byw i ddaliad arall neu i gyfleuster treulio anaerobig fel opsiwn ar gyfer lleihau faint o dail da byw sy'n cael ei wasgaru ar dir. Fel arall, gall rhai gyflwyno tail da byw ychwanegol i fynd i'r afael â gofynion cnydau penodol.

Ar hyn o bryd o fewn y Rheoliadau, mae'n ofynnol i ffermydd gofnodi tail da byw sydd wedi'i fewnforio neu ei allforio o ddaliad o fewn wythnos i'r trafodiad.

Bydd rhai ffermydd yn ymgymryd â chynllunio i asesu pryd y gellir allforio tail o'r daliad neu bydd ganddynt gytundebau cylchol ar gyfer allforio neu fewnforio tail. Os yw'r daliad yn bwriadu allforio neu fewnforio tail, cynigir bod hynny'n cael ei gofnodi yn y cynllun rheoli maethynnau cyn i'r trafodiad ddigwydd yn ogystal â chofnodi'r digwyddiad gwirioneddol.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ychwanegol ynghylch mathau cymwys o dail da byw a gofynion ychwanegol ar gyfer mewnforio ac allforio tail da byw?

Gwasgaru tail organig â lefel nitrogen uchel

Mae gwasgaru tail â lefel uchel o nitrogen ynddo yn ystod cyfnodau pan nad yw cnydau'n tyfu yn cynyddu'r risg o lygredd uniongyrchol a gwasgaredig. Hynny am nad yw cnydau'n amsugno nitrogen ar yr adegau hynny. I leihau'r risg, ceir trefniadau sy'n cyfyngu ar wasgaru "tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ynddo" pan nad yw cnydau'n tyfu.

Mae Rhaglen Weithredu Gogledd Iwerddon ar Faethynnau wedi neilltuo cyfnod rhwng canol nos 15 Hydref a chanol nos 31 Ionawr pan na chaniateir gwasgaru tail organig, gan gynnwys slyri, tail dofednod, gweddillion treuliad anaerobig, slwtsh carthion a gwastraff lladd-dai. ar y tir. Yn ogystal, mae Gogledd Iwerddon wedi ychwanegu at y rhanddirymiad hwnnw trwy wahardd gwasgaru unrhyw dail organig, gan gynnwys tail buarth a dŵr brwnt/budr rhwng canol nos 1 Medi a chanol nos 31 Ionawr ar unrhyw barsel o dir os oes bwriad i darfu ar y pridd fel rhan o broses tyfu porfa, er enghraifft trwy aredig. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaharddiadau cyffredinol ar wasgaru gwrtaith ar unrhyw adeg os yw'r pridd yn llawn dŵr, o dan ddŵr, wedi'i rewi neu o dan eira, neu os oes rhagolygon y daw glaw trwm yn y 48 awr nesaf. Ni chaniateir gwasgaru gwrtaith ar dir ar lethr a lle ceir risgiau arwyddocaol eraill o lygru dŵr a dylai ffermwyr ystyried ffactorau risg gan gynnwys cyrsiau dŵr gerllaw, yr amser hyd at ei ymgorffori yn y pridd, y math o wrtaith, faint ohono, cyflwr y pridd a'r tywydd.

Mae'r Rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru yn gwahardd gwasgaru gwrtaith nitrogen, gan gynnwys tail organig, os oes risg arwyddocaol y gallai'r nitrogen fynd i ddŵr wyneb unrhyw bryd. Rhaid archwilio'r caeau cyn ei wasgaru a rhaid ystyried y gorchudd pridd, y math o bridd, unrhyw lethrau, a oes dŵr wyneb gerllaw, y tywydd ac a yw'r pridd yn llawn dŵr, o dan ddŵr, o dan eira neu wedi'i rewi. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys 'cyfnodau gwaharddedig' fel y rheini yng Ngogledd Iwerddon i leihau'r risg o lygredd uniongyrchol a gwasgaredig yn ystod y cyfnodau pan nad yw cnydau'n tyfu. Yn y cyfnodau hynny, ceir cyfyngiadau ar wasgaru tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ynddo. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 1 Awst 2024 gan gyfyngu ar wasgaru tail rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr ar bridd tywodlyd a rhwng 15 Hydref a 15 Ionawr ar bob math arall o bridd. Rydyn ni'n deall na fydd gan bob fferm ddigon i le i storio tail o'r fath erbyn y dyddiad y daw i rym. Bydd gan ambell un waith yn yr arfaeth eisoes i gynyddu capasiti cyn 1 Awst 2024.

Cynigir cynnwys amod mewn trwydded i leihau'r risg o lygredd uniongyrchol neu wasgaredig yn ystod cyfnodau pan nad yw cnydau'n tyfu.

Hoffem glywed eich barn sut y gallai amodau'r drwydded leihau'r risg, yn enwedig a oes modd lleihau'r risg heb bennu cyfnod pan gyfyngir ar wasgaru tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ynddo.

Hoffem glywed eich barn hefyd ynghylch lleihau'r risg trwy amod ar y drwydded sydd yn pennu cyfnod pan gyfyngir ar wasgaru tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ynddo, tebyg i'r cyfnodau gwaharddedig a ddaw i rym ar 1 Awst 2024. Gallai trywydd o'r fath gynnwys darpariaeth ar gyfer y busnesau fferm hynny na fydd ganddynt ddigon o le storio cyn 1 Awst 2024, er mwyn cynnwys, fel rhan o'r broses ar gyfer ymgeisio am y drwydded efallai, cynllun rheoli ysgrifenedig ar gyfer trin unrhyw symiau dros ben o dail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ynddo.

Cwestiwn 10: Sut gellid rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â gwasgaru tail â lefel uchel o nitrogen trwy amodau trwydded?

Beth yw'ch barn am reoli'r risg hon trwy bennu cyfnod pan gyfyngir ar wasgaru tail o'r fath?

Mesurau diogelu pridd

Gall dwysedd rheoli tir gynyddu'r risgiau i ddirywiad pridd gydag effeithiau negyddol ar ddangosyddion pridd megis bioamrywiaeth, maethynnau, cywasgu ac erydu pridd.

Mae cadw pridd ar dir ac atal lle bo modd ddŵr ffo i mewn i gyrff dŵr yn fesur pwysig; mae'n lleihau gormodedd o siltio afonydd ac yn atal maethynnau sydd wedi rhwymo i ronynnau pridd rhag mynd i mewn i gyrsiau dŵr.

Lle mae maethynnau ychwanegol yn cael eu taenu ar dir ar ffurf tail da byw, mae'n bwysig bod y maethynnau'n cael eu cadw ar y tir ac o fewn y pridd.

Mae rhai mesurau diogelu pridd eisoes yn bodoli o fewn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ac o fewn safonau dilysadwy trawsgydymffurfio i'r rhai sy'n derbyn cyllid grant neu Gynllun y Taliad Sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes amddiffyniadau deddfwriaethol ar hyn o bryd ar gyfer pob fferm na'r rhai y tu allan i'r gyfundrefn drawsgydymffurfio. Cynigir y dylai'r mesurau hyn sydd o fewn GAEC 4¹⁴ o'r safonau dilysadwy ar hyn o bryd gael eu gwneud yn ofyniad ar gyfer pob fferm o fewn y cynllun trwyddedu.

Aredig glaswelltir dros dro

Mae gorchudd glaswelltir yn bwysig i atal colledion pridd; lle mae'n cael ei aredig, dylid cymryd gofal ychwanegol er mwyn sicrhau nad yw pridd yn cael ei golli i'r amgylchedd a bod gorchudd newydd yn cael ei sefydlu'n gyflym. Cynigir y dylid aredig glaswelltir dros dro yn y gwanwyn a heb fod yn hwyrach na 31 Mai; mae gofyniad tebyg yn bodoli o fewn rhanddirymiad Gogledd Iwerddon.

Cyfnod gwaharddedig ar gyfer aredig lle mae tail da byw wedi'i daenu

¹⁴ [Polisi Amaethyddol Cyffredin; Taflenni Ffeithiau Trawsgydymffurfio Ffermwyr \(llyw.cymru\)](#)

Ar gyfer glaswelltir parhaol lle mae tail da byw wedi'i daenu'n hwyr yn y flwyddyn galendr flaenorol, ni ddylid ei aredig tan y flwyddyn nesaf gan ei fod yn cynyddu'r risg o golli maethynnau. Pan fo tail da byw wedi'i daenu yn yr hydref, cynigir dyddiad aredig cynharaf o 16 Ionawr.

Hau cnydau yn dilyn cylchdroi glaswellt a chnydau

Y bwriad yw pan fo unrhyw laswellt ar y daliad trwyddedig yn cael ei aredig, rhaid hau'r tir gyda chnwd sydd â galw nitrogen uchel o fewn pedair wythnos, gan ddechrau ar ddiwrnod aredig y glaswellt, neu ei ail-hau gyda glaswellt o fewn chwe wythnos, gan ddechrau ar y diwrnod wedi dyddiad aredig y glaswellt. Yn ogystal, ni ddylai cylchdroi cnydau ar ddaliad trwyddedig gynnwys codlysiau neu blanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen atmosfferig, ac eithrio glaswellt sydd â llai na 50% o feillion, neu unrhyw godlysiau eraill y mae glaswellt yn cael ei hau oddi tanynt. Mae'r rhain yn nodweddion o randdirymiadau blaenorol i gyfyngu ar golledion maethynnau.

Lleoliadau bwydo ac yfed atodol

Gall cywasgu tir, neu sathru, ddigwydd lle mae pridd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan dda byw; mae'r cywasgiad tir hwn yn lleihau gallu'r cnwd i dyfu. Sathru gan dda byw a pheiriannau yw'r achosion a nodir amlaf o ddifrod pridd sy'n effeithio ar hyd at chwarter y glaswelltiroedd¹⁵.

Mae'r darpariaethau presennol wedi'u cynnwys o fewn GAEC 1 o'r safonau dilysadwy sy'n nodi na ddylai dwysfwydo atodol ddigwydd o fewn 10 metr i gwrs dŵr.

Yn Rhaglen Gweithredu Nitradau Gogledd Iwerddon, os oes risg sylweddol o lygredd i unrhyw ddyfrffyrdd, ni cheir lleoli mannau bwydo atodol o fewn 20m i unrhyw ddyfrffordd ac ni cheir lleoli mannau yfed atodol o fewn 10m iddi. Cynigir y dylai unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y cynllun gadw at y gofynion hyn.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ar gyfer diogelu pridd a amlinellir uchod? Os na, rhowch resymau

Pennod 5: Gorfodi ac apeliadau

Gorfodi

Mae'r gwaith o orfodi'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynigir y dylai'r cynllun trwyddedu fod yn rhan o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Gan y bydd y cynllun trwyddedu yn rhan o'r Rheoliadau, bydd torri amodau'r drwydded yn cyfrif fel trosedd.

¹⁵ Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru 2022

Cynigir hefyd os bydd unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn torri amod o'r drwydded, gall y drwydded gael ei diddymu gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Apeliadau

Os gwrthodwyd cais ar sail y ffaith nad yw'n addas i'r daliad gael trwydded gan nad yw'r meini prawf ymgeisio wedi'u bodloni neu risg ehangach o lygredd, y bwriad yw bod hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae prosesau rhanddirymu blaenorol wedi rhoi 30 diwrnod o rybudd i ymgeiswyr apelio yn erbyn cais a wrthodwyd ac i'r penderfyniad gael ei adolygu gan banel annibynnol. Y bwriad yw defnyddio'r un broses apelio o fewn y cynllun trwyddedu.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n dull o ymdrin â gorfodi ac apeliadau a amlinellir ym Mhennod 5?

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu, i fod yn weithredol tan 2025, er mwyn caniatáu taenu lefelau uwch o nitrogen o dan rai amgylchiadau penodedig? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 2: . Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysra arfaethedig?

Os na, pam hynny a pha feini prawf fydddech chi'n eu cynnig?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai fod angen dangos anghenion cnydau yn glir fel y disgrifir uchod?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig y cynllun rheoli maethynnau?

Cwestiwn 5: Sut y gall risgiau i'r amgylchedd ehangach gael eu hystyried orau a sut y gall cynlluniau rheoli maethynnau gael eu hasesu mewn ffordd safonol?

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol gofyn am brofi a dadansoddi pridd i lywio cynlluniau rheoli maethynnau?

Cwestiwn 7: A ddylid ystyried 'dull cydbwysedd ffosforws fferm gyfan'? Dylech gynnwys rhesymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 8: A ddylai cynlluniau rheoli maethynnau ofyn am ffactorau maethynnau ac amodau pridd eraill ar wahân i nitrogen a ffosforws? Os felly, pa rai?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ychwanegol ynghylch mathau cymwys o dail da byw a gofynion ychwanegol ar gyfer mewnfario ac allfario tail da byw?

Cwestiwn 10: Sut gellid rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â gwasgaru tail â lefel uchel o nitrogen trwy amodau trwydded?

Beth yw'ch barn am reoli'r risg hon trwy bennu cyfnod pan gyfyngir ar wasgaru tail o'r fath?

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ar gyfer diogelu pridd a amlinellir uchod? Os na, rhowch resymau

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n dull o ymdrin â gorfodi ac apeliadau a amlinellir ym Mhennod 5?

Cwestiwn 13: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fydd yr effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 14: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynllun trwyddedu arfaethedig fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych o'r farn fod yna faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi.

Nodwch yn y fan hon:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma:

